Beibl i Blant
yn cyflwyno



# Iesu yn dewis deuddeg person i'w helpu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus
addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2014 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Gwnaeth Iesu bethau rhyfeddol – gwella afiechydon, gwneud i bobl deimlo'n dawel yn eu calonnau a'u meddyliau, a dysgu Gair Duw.



Roedd tyrfaoedd yn dod at Iesu am help ac iachâd. Penderfynodd ddewis deuddeg o'r bobl oedd yn ei ddilyn, i'w helpu yn ei waith dros Dduw.





Os oes gen ti bethau pwysig i'w penderfynu, wyt ti'n gweddio ar Dduw? Dyna oedd Iesu'n ei wneud. Aeth i le tawel ar fynydd i siarad gyda'i Dad yn y nefoedd. Gweddiodd Iesu nes bod yr haul wedi machlud.



Gweddiodd Iesu drwy'r nos dywyll.

Yn y bore, galwodd Iesu ei ddilynwyr at ei gilydd – pob un o'r ffrindiau oedd yn gweithio drosto ac yn ufuddhau iddo. Yna dewisodd ddeuddeg ohonyn nhw i fod yn ddisgyblion, neu'n apostolion.



Roedd y ddau cyntaf yn ddau frawd, Seimon Pedr ac Andreas.  Fe wnaethon nhw adael eu busnes pysgota pan wnaeth Iesu ofyn iddyn nhw ei ddilyn.



Fe wnaeth Iago ac Ioan, meibion Sebedeus, hefyd adael eu gwaith fel pysgotwyr.



Dewisodd Iesu Philip, Bartholomeus, Mathew, Thomas, Seimon y Selot, Iago fab Alffeus, Jwdas, un o frodyr Iago, a Jwdas Iscariot. Daeth hwn yn elyn i’r Iesu yn y diwedd.



Dysgodd Iesu bod gwneud beth roedd e'n ddweud yn debyg i adeiladu tŷ ar dir solet. Dyw stormydd gwyllt ddim yn gallu dinistrio'r tŷ hwnnw.



Ond mae peidio ufuddhau i eiriau Iesu yn debyg i adeiladu tŷ ar dywod.  Pan mae'r storm yn dod, mae'r tŷ yn syrthio ac yn chwalu.



Mae rhai o orchmynion Iesu yn anodd. "Os ydy rhywun yn rhoi clatsien i ti ar dy foch dde, cynnig y foch arall iddo."  Dysgodd "Carwch eich gelynion."  Rydyn ni angen help Duw i fyw fel Iesu.



Dywedodd Iesu wrth bobl am weddïo heb wneud sioe o flaen pobl eraill fel oedd rhai o'r arweinwyr crefyddol yn gwneud.



Dywedodd Iesu y byddai
Duw yn rhoi bwyd a dillad
i'r bobl sy'n ei drystio.
Mae Duw'n rhoi bwyd i adar
a lliwiau hardd i flodau a llwyni,
felly mae pobl yn gallu ei drystio i
ofalu amdanyn nhw.



Dysgodd Iesu lawer o bethau i'w ddisgyblion newydd y diwrnod hwnnw Yna daeth dyn oedd yn sâl gyda'r gwahanglwyf ato a chrefu ar i Iesu ei wella.





Atebodd Iesu, “Fe wna i. Bydd lân.” Gyda’r disgyblion yn gwylio, cafodd y dyn ei wneud yn holliach. Roedd wedi ei wella! Dim ond Mab Duw fyddai’n gallu gwneud hynny. Roedd y disgyblion yn gwybod fod ganddyn nhw

Feistr rhyfeddol.

Iesu yn dewis deuddeg person i'w helpu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 4-7, Marc 1, Luc 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16